WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bro Morgannwg

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall.  Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Steve Barry a Janet Villars o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Bro Morgannwg? 04

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn gwasanaethu pobl yn dda? 11

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn helpu pobl mewn angen? 12

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn helpu pobl i ddatblygu? 15

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 18

Beth y dylai Cyngor Bro Morgannwg ei wneud? 23


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 24

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Fro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg 26

Atodiad 3 - Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 28

Atodiad 4 - Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 29

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Bro Morgannwg 32

Atodiad 6 - Cyfeirnodau 35

# Pa fath o ardal yw Bro Morgannwg?

1 Bro Morgannwg yw awdurdod unedol mwyaf deheuol Cymru, wedi'i ffinio â thraffordd yr M4 i'r gogledd ac Aber yr Afon Hafren i'r de. Mae'n 33,097 hectar o ran maint gyda 53 cilometr o arfordir, gan gynnwys 19 cilometr o Arfordir Treftadaeth. Y prif drefi yw'r Barri, Penarth, Llanilltud Fawr, Dinas Powys, y Bont-faen a'r Rhws. Y Barri, sef y dref fwyaf gyda phoblogaeth o bron i 50,000, yw canolfan weinyddol y Cyngor, ac mae'n gyrchfan gwyliau glan môr ac yn borthladd. Pedair milltir i'r gorllewin o ganol y dref, yn y Rhws, mae Maes Awyr Caerdydd.

2 Roedd Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi: ‘ Lle cymharol gyfoethog ar y cyfan yw Bro Morgannwg ac mae llawer o'r trigolion yn cael mwynhau safon byw uchel mewn amgylchedd da. Serch hynny, y mae anawsterau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol mewn ambell i ardal yn y Fro, fel diweithdra mawr, tai gwael, cyflawniad addysgol isel, iechyd gwael a llawer o droseddu.’

3 Yn seiliedig ar amcangyfrif canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2009, poblogaeth Bro Morgannwg yw 124,605. Mae'r SYG yn amcangyfrif y bydd y ffigur hwn yn codi tua un y cant y flwyddyn. Ceir tua 49,770 o gartrefi yn y Fro (amcangyfrif 2006). Disgwylir i'r ffigur gynyddu i dros 57,000 o gartrefi erbyn 2021. Disgwylir i broffil oedran poblogaeth y Fro newid hefyd. Disgwylir i nifer y plant (0 i 14 oed) godi o 22,668 yn 2007 i dros 24,000 yn 2021, a disgwylir i nifer y bobl 65 oed neu hŷn godi tua 39 y cant, o 21,558 yn 2007 i 30,000 yn 2021.

4 Mae Asesiad o Wariant Safonol Llywodraeth y Cynulliad y pen o’r boblogaeth ar gyfer Bro Morgannwg ar gyfer 2009-10 yn y ddeunawfed safle yng Nghymru, sy’n gyson â’r blynyddoedd diwethaf. Yn draddodiadol mae’r Cyngor wedi pennu ei gyllideb refeniw gyffredinol ychydig yn is na’r Asesiad o Wariant Safonol. Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Bro Morgannwg oedd £1,043.43; mae'r tâl hwn wedi cynyddu 4.05 y cant i £1,085.67 miliwn ar gyfer 2010-11.

5 Y Cyngor yw cyflogwr mwyaf y Fro, gyda tua 5,800 o gyflogeion llawn amser, rhan amser ac achlysurol (ar 15 Mawrth 2009). Yn gyffredinol, mae cyfran uchel o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector gwasanaethau. O gymharu â gweddill de-orllewin Cymru, mae cyfran is o swyddi gweithgynhyrchu yn y Fro a chyfran uwch o swyddi ym meysydd dosbarthu, gwestai ac arlwyo. Mae nifer y busnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW wedi cynyddu o 3,145 yn 2006 i 3,165 yn 2007.

6 Rhwng 2001 a 2008 roedd y gyfradd gyflogaeth yn uwch yn y Fro na chyfradd gyflogaeth Cymru yn gyffredinol. Yn 2008, 73.4 y cant oedd y gyfradd gyflogaeth ym Mro Morgannwg, sydd ymysg yr uchaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Ym mis Gorffennaf 2010, dywedodd 3.5 y cant, neu 2,700, o drigolion o oedran gweithio eu bod yn ddi-waith drwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. Tri phwynt chwech y cant oedd cyfartaledd Cymru.

arfordir
53 km
/////////////

poblogaeth
124,605
/////////////

# A yw Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei reoli'n dda?

7 Ym mis Medi llynedd, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n nodi sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Ceir crynodeb o'r adroddiad hwn, sef yr Asesiad Corfforaethol, yn Atodiad 3. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

8 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod trefniadau arwain a rheoli cadarn yn cyfrannu at welliannau mewn meysydd allweddol ond nid oedd y weledigaeth strategol yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi a oedd yn adlewyrchu cyfyngiadau o ran adnoddau. Canfuwyd y gallai'r Cyngor berfformio'n well mewn rhai gwasanaethau pwysig ond, er ei fod wedi nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni, nid oedd yn siŵr a fyddai digon o adnoddau ganddo i wneud hyn.

9 Yn ogystal, nodwyd y canlynol:

- Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio ei wasanaethau ac yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio technoleg. Mae ei ganolfan gyswllt, sydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer pob gwasanaeth, yn darparu ystod ehangach o gyngor i bobl yn y Fro. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio ei lyfrgelloedd lleol i helpu pobl i gael mynediad at ei wasanaethau.
- Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â phroblemau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol ac mae ei wasanaeth addysg yn dda.
- Mae'n gwybod y bydd angen iddo arbed arian yn y dyfodol ac mae wrthi'n cymryd camau i wneud defnydd gwell o'r hyn sydd ganddo. Mae rhaglen weithredu 'Un Fro' y Cyngor yn anelu at arbed £39 miliwn rhwng 2006 a 2016 drwy leihau gwariant refeniw, adolygu'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg i wella mynediad at wasanaethau a gwella trefniadau cydweithio.

10 Gan fod y Cyngor wedi cyhoeddi Cynllun Corfforaethol a Strategaeth Gymunedol newydd eleni, ar hyn o bryd mae wrthi'n cysoni ei gynlluniau gwasanaeth â'i strategaeth newydd. Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi defnyddio ei gynlluniau gwasanaeth fel ffordd o gyfeirio gweithgarwch gwasanaeth tuag at y nod o gyflawni ei amcanion. Byddwn yn gwneud rhagor o waith i benderfynu p'un a yw trefniadau darparu gwasanaethau yn unol â'r amcanion gwella y dywed y Cyngor y mae'n bwriadu eu cyflawni yn ei Gynllun Corfforaethol.

11 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill. Fodd bynnag, nid yw bob amser wedi bod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'r partneriaethau hyn wedi'i gyflawni ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â materion a nodwyd gennym yn y gorffennol, megis diffyg eglurder ynghylch amcanion a blaenoriaethau'r bartneriaeth a'r rolau y disgwylir i bartneriaid eu cyflawni. Mae'r Cyngor yn berchen ar dir ac adeiladau y gall eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Nid yw bob amser wedi bod yn glir ynglŷn â sut y mae'r tir a'r adeiladau yn ei helpu i ddarparu gwasanaethau ac mae wrthi'n ailystyried sut y mae'n defnyddio'r asedau hyn ac a allai gael gwared arnynt.

12 Pennodd y Cyngor gyllideb refeniw o tua £195 miliwn yn 2009-10. Y gwariant refeniw gwirioneddol oedd £194 miliwn. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau bod datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2009-10 yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor.


13 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn gweld gostyngiad o £2.6 miliwn (1.7 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff oddi wrth

Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl ystyried chwyddiant, golyga hynny doriad mewn termau real o tua £5.5 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos lleihad pellach mewn termau real yn arian refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Roedd y ffigurau hyn ar gael ym mis Tachwedd 2010 felly nid oedd y Cyngor yn gallu rhoi cyfrif amdanynt yn y Cynllun Corfforaethol na'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

14 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddull cynllunio ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith pellach i asesu ei ofynion o ran adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd gofynion y gyllideb yn cynyddu i £202 miliwn y flwyddyn nesaf. At hynny, mae'r Cyngor yn rhagweld diffyg o £14.2 miliwn mewn arian refeniw gros yn 2010-11 a diffyg o £13.3 miliwn yn y ffigur hwnnw yn 2011-12.

**Arddangosyn 1: Gofyniad gwariant cyllideb a ragwelir a'r adnoddau sydd ar gael 2010-11 i 2013-14**

Mae'r Cyngor wedi nodi'r bwlch rhwng yr anghenion ariannu amcangyfrifedig a'r cyllid a ragwelir sy'n ei helpu i gynllunio'r arbedion a'r lleihad mewn gwariant sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.




*Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bro Morgannwg Medi 2010*

15 Mae'r Cyngor wedi rheoli ei gyllideb yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gyflawni cyllidebau refeniw mantoledig ar lefel cyfarwyddiaeth a lefel gorfforaethol. Fodd bynnag, fel pob cyngor arall, mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai heriau ariannol sylweddol os yw am sicrhau lefel yr arbedion a ragwelir ganddo.

16 Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar ystod o ddewisiadau i sicrhau arbedion, ac mae aelodau'n craffu arnynt. Mae dadansoddiad manwl o ddewisiadau i gyflawni'r arbedion hyn wedi'i gynnig, a chaiff ei gyflwyno i bob pwyllgor craffu er mwyn iddynt ymgynghori arno ac ymateb iddo erbyn 21 Rhagfyr 2010.

17 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Bydd disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i lywodraeth leol leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf i Lywodraeth y Cynulliad, nid yw'n bosibl bod yn sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 (lleihad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

# A yw Cyngor Bro Morgannwg yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

18 Mae ein hadolygiad o drefniadau rheoli'r Cyngor a'r ffordd y mae'n pennu'r hyn sydd angen ei wneud i wella yn cadarnhau bod y Cyngor yn ymwybodol o berfformiad ei wasanaethau ac yn gallu dangos ei fod wedi cymryd camau i wella perfformiad. Ar yr un pryd, nid yw'n esbonio'r rhesymau dros ddewis y camau a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol yn glir. Ac, er bod ei Gynllun Gwella'n[1] cynnwys gwybodaeth am berfformiad ei wasanaethau, nid yw'r wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi'r darllenydd i ffurfio barn gyffredinol ar wasanaethau sy'n perfformio'n gymharol dda neu rai sy'n perfformio'n gymharol wael. Gall y Cyngor ddangos ei fod wedi ceisio barn dinasyddion, ond nid yw bob amser yn amlwg y defnyddiodd y safbwyntiau hynny i lywio ei flaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i ddinasyddion ddeall yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ganddynt neu i wella perfformiad.

19 Noda'r Cyngor y bydd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sy'n dioddef o anawsterau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, megis lefelau uchel o ddiweithdra, tai gwael, cyflawniad addysgol isel, iechyd gwael a llawer o droseddu, ar gyfer gwelliant gan geisio cynnal a gwella nodweddion gorau'r Fro fel y caiff trigolion yr ardal a phawb sy'n gweithio neu'n hamddena ynddi well ansawdd bywyd. Mae'r uchelgais hon yn debygol o fod yn her sylweddol o ystyried y toriadau sydd ar droed yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor.

20 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna ac i ddisgrifio sut y bydd yn gwneud hyn. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau bennu amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Pennodd y Cyngor 34 o amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010. Nodir yr amcanion hyn yn Atodiad 5.

21 O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn ag adnoddau, mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad rhesymol i nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd dros gyfnod o bedair blynedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu na chaiff camau eu pennu ar gyfer saith o'r 34 o amcanion tan 2012. Fodd bynnag, mae rhai o'r camau eraill yn dibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar arian allanol felly bydd y Cyngor yn adolygu ei opsiynau yng ngoleuni newidiadau i'w sail cyllid. Drwy bennu'r amcanion bryd hynny, bodlonodd y Cyngor un o ofynion Llywodraeth y Cynulliad, sef i bennu amcanion cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill.

22 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn disgwyl i'r Cyngor esbonio pam y dewiswyd yr amcanion hyn yn ogystal â'r canlyniadau y gallai cymunedau eu disgwyl pe cânt eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi egluro effeithiau rhesymol nac effeithiau disgwyliedig ei 34 o amcanion gwella. Yn syml, mae nifer o'r camau sydd yn y Cynllun Corfforaethol yn disgrifio proses - er enghraifft, adolygu'r Strategaeth Gymunedol - ac nid ydynt yn nodi'r canlyniadau a geir o ganlyniad. Mae eraill yn cyfeirio at roi cynllun gweithredu ar waith - er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau diogelu i oedolion sy'n agored i niwed - heb nodi'r canlyniadau bwriadedig.

23 Disgwylir i'r Cyngor hefyd esbonio sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn. Ceir peth gwybodaeth yn y Cynllun Corfforaethol am y cyfleoedd y mae'r Cyngor wedi'u rhoi i bobl i leisio'u barn, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cyfeirio at y cyfle i gynnig amcanion gwella newydd. Yn ei Gynllun Gwella a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010, nododd y Cyngor gyfeiriad e-bost gan esbonio y gellid awgrymu amcanion gwella newydd neu gynnig sylwadau ar rai cyfredol drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad hwn, ond nid oes datganiad na dolen debyg yng Nghrynodeb y Cynllun Gwella, sef y ddogfen y byddai'r rhan fwyaf o ddarllenwyr yn ei darllen gyntaf.

1 Adroddiad blynyddol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref sy'n esbonio'r cynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn ei dargedau ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod.

24 Mae'r 34 o amcanion yn y Cynllun yn gysylltiedig â saith blaenoriaeth gorfforaethol y mae'r Cyngor wedi'u dewis i'w helpu i weithio tuag at gyflawni ei weledigaeth ar gyfer y sir. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio'n fras ar sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu i ddinasyddion, y caiff y Cyngor ei lywodraethu'n dda a'i fod yn defnyddio adnoddau'n effeithiol. Mae'r saith egwyddor gorfforaethol fel a ganlyn:

- **Arweinyddiaeth gymunedol**. Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo trefniadau llywodraethu da a sicrhau bod dull cydlynol ar waith i gyflawni'r weledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol y Fro.
- **Plant a phobl ifanc**. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc y Fro yn cael digon o wybodaeth a chymorth i ddefnyddio ystod eang o wasanaethau o safon i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn y gymuned leol a thu hwnt.
- **Dysgu gydol oes a sgiliau**. Gweithio gyda phartneriaid i wella sgiliau, gwybodaeth a gallu trigolion y Fro i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ac i wella ansawdd eu bywydau.
- **Iechyd, gofal cymdeithasol a lles**. Gweithio gyda phartneriaid i ddiwallu anghenion amrywiol ein trigolion mewn ffyrdd a fydd yn diogelu ac yn rhoi cymorth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ac sydd â'r angen mwyaf; helpu pobl i gadw'n heini ac yn iach, gwella cydlyniant cymunedol a sicrhau cyfle cyfartal i bawb.
- **Diogelwch cymunedol**. Gweithio gyda phartneriaid i wneud Bro Morgannwg yn amgylchedd mwy diogel heb unrhyw droseddau, anrhefn nac ofn troseddau drwy gymryd camau ataliol a chadarnhaol.
- **Adfywio**. Gweithio gyda phartneriaid i greu cymuned gynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o ran twf economaidd, gwelliant cymdeithasol ac adfywiad a diogelwch amgylcheddol.
- **Adnoddau corfforaethol**. Rheoli gweithlu, arian, gwybodaeth ac asedau'r Cyngor yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel.

25 Yn 2009, cynhaliodd y Cyngor arolwg o farn y cyhoedd a oedd yn cynnwys 1,000 o gyfweliadau mewn cartrefi a 1,000 o gyfweliadau pellach mewn mannau amrywiol ledled y sir. At hynny, ym mis Medi a mis Hydref 2009, treuliodd y Cabinet a swyddogion dri dydd Sadwrn yn cwrdd â thrigolion yn y Rhws, y Barri a Phenarth. Ymgynghorwyd hefyd ag ystod o bartneriaid, unigolion sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac aelodau o'r Panel Dinasyddion ar ei Gynllun Corfforaethol drafft a'i amcanion gwella. Roedd darparu gweithgareddau a chyfleusterau i bobl ifanc a delio â throseddau/ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaethau uchel i'r rheini a ymatebodd i'r arolwg o farn y cyhoedd ac fe'n cynghorwyd gan swyddogion fod arian wedi'i sicrhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau sy'n gysylltiedig â Diogelwch Cymunedol, felly byddwn yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth y flwyddyn nesaf.

26 Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â chyflwr ffyrdd a phalmentydd a glendid strydoedd gan y bobl yr ymgynghorwyd â hwy. Er nad yw'r Cynllun Corfforaethol yn nodi unrhyw gam penodol i dargedu'r materion hyn, mae'r data y cyflwynwyd adroddiad arno yn y Cynllun Gwella yn awgrymu bod y Cyngor yn bwriadu gwella cyflwr llwybrau troed a ffyrdd a defnyddio mesurau i asesu barn dinasyddion ar gyflwr ffyrdd a phalmentydd.

27 Mae gan y Cyngor ddull systematig o adolygu ei weithgareddau i sicrhau y caiff camau penodol eu rhoi ar waith. Mae wedi defnyddio cynlluniau gwasanaeth fel ffordd o lywio gweithgarwch gwasanaethau a gall ddangos y gall sicrhau gwelliant drwy bennu ffocws. Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau gwasanaethau ac mae'n cynnig sicrhau eu bod yn nodi amcanion sydd o bwys i'r gymuned. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i benderfynu p’un a yw trefniadau darparu gwasanaethau yn unol â’r amcanion gwella y dywed y Cyngor y mae’n bwriadu eu cyflawni yn ei Gynllun Corfforaethol.

28 Mae angen i bob Cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Bydd archwilwyr yn profi sampl a ddewisir o 38 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. O'r prawf hwn canfuwyd bod y Cyngor wedi rhoi systemau cynhwysfawr ar waith i bennu'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer 2009-10, ond cafwyd gwendidau yn y data ar reoli gwastraff oherwydd, fel naw cyngor arall, ni allai'r Cyngor hepgor gwastraff glanhau traethau o'i gyfrifiadau o wastraff a gafodd ei ailgylchu neu ei gompostio.

# A yw Cyngor Bro Morgannwg yn gwasanaethu pobl yn dda?

29 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol, gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd ym Mro Morgannwg. Credwn, gyda'i gilydd, fod y tair agwedd hyn ar fywyd yn cwmpasu'r prif bethau y mae cynghorau yn eu gwneud. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

30 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar ba mor dda mae'r Cyngor yn ei wneud hyd yn hyn mewn perthynas ag un amcan o dan bob un o'r agweddau hyn. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:

- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Amcan gwella: diogelu a gwarchod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Rydym wedi llunio adroddiad ar hyn o dan 'Helpu i roi cymorth i bobl mewn angen'.
- Dysgu gydol oes a sgiliau. Amcan gwella: gwella canlyniadau i ddysgwyr y tybir eu bod yn agored i niwed o ganlyniad i ystod o ffactorau sy'n effeithio ar eu lles cyffredinol. Rydym wedi llunio adroddiad ar hyn o dan 'Helpu pobl i ddatblygu'.
- Diogelwch cymunedol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu pum amcan cysylltiedig, ac mae camau wedi'u cynnig ar gyfer tri o'r amcanion hyn ar gyfer 2010. Rydym wedi llunio adroddiad ar hyn o dan 'Helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw'.

31 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Mae cydweithwyr yn AGGCC wedi cynnal adolygiadau o agweddau penodol ar Wasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg dros y ddwy flynedd diwethaf a chyfeiriwn at eu gwaith yn yr adroddiad hwn. Arolygodd Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant, wasanaeth addysg y Cyngor yn 2010 a chyfeiriwn at ganfyddiadau'r arolygiad hwn hefyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn feysydd gwasanaeth lle mae gan y Cyngor fwy o reolaeth uniongyrchol dros y dyraniad a'r defnydd o'i adnoddau a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni.

32 Mae heriau pellach yn gysylltiedig â chyflawni ei amcanion o ran diogelwch cymunedol am fod 'amgylchedd diogel heb unrhyw droseddau, anrhefn nac ofn troseddau' yn golygu gwahanol bethau i bobl wahanol ac yn dibynnu i raddau ar ba mor ddiogel y mae pobl yn teimlo. Mae llwyddiant hefyd yn dibynnu ar waith partneriaeth cadarn i gydlynu gweithgareddau, darparu adnoddau a chytuno ar sut y caiff llwyddiant ei fesur.

# A yw Cyngor Bro Morgannwg yn helpu pobl mewn angen?

33 Er bod Bro Morgannwg yn ardal gymharol gyfoethog, ceir ardaloedd o amddifadedd, yn bennaf yn y Barri. Dangosodd mynegai amddifadedd lluosog Cymru (2008) a luniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad fod dwy ardal o'r Barri yn y 10 y cant uchaf a phedair ardal arall yn y 10 y cant nesaf mewn perthynas ag ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru.

## Darparu tai fforddiadwy

34 Mae cyfradd y ddarpariaeth ychwanegol o dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg wedi gostwng ers 2007-08, ac roedd yn is na chyfartaledd Cymru o hyd yn 2007-08 a 2008-09. Nid yw'r Cyngor yn llwyr gyfrifol am lefel y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ond, fel cam i gefnogi gwelliant, mae wedi tynnu sylw at yr angen i roi ei bolisi tai fforddiadwy ar waith yn 2010. Mae'r polisi yn y canllawiau cynllunio ac mae'n nodi targedau o ran darparu tai fforddiadwy ar safleoedd mwy a safleoedd llai pe bai tystiolaeth o angen lleol. Mae rhagamcanion y Cyngor yn awgrymu cynnydd mewn darpariaeth dros y blynyddoedd nesaf, ond mae'r ddarpariaeth yn dibynnu'n fawr ar adeiladwyr y sector preifat yn ystyried y gwaith o ddatblygu safle fel dewis hyfyw a lefely grant Llywodraeth y Cynulliad sydd ar gael ar gyfer adeiladu gan gymdeithasau tai. Byddwn yn adolygu canlyniad y gwaith o weithredu'r polisi yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

## Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg

35 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ar ofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac felly annog darparwyr y gwasanaethau i wella. O dan ddeddfwriaeth newydd mae fframwaith newydd ar waith ar gyfer archwilio, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

36 Mae'r Cyngor wedi bod yn delio â materion o bwys mewn gwasanaethau cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae AGGCC wedi monitro'r cynnydd hwn. Rôl AGGCC yw annog gwelliant ym maes gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol a chyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ar wasanaethau cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau.

37 Cyhoeddodd AGGCC ei 'Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer 2009/10' ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ym Mro Morgannwg ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu nifer o feysydd cryf yn ogystal â meysydd i'w gwella neu eu datblygu, Gwelwyd bod y gwaith o arwain gwasanaethau cymdeithasol, ar lefelau adrannol a chorfforaethol yn effeithiol ac mae trefniadau ar waith i gefnogi gwaith aelodau o graffu ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae sicrhau bod ffocws ar ganlyniadau ac effeithiau newid, yn enwedig ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ar lefel adrannol a chorfforaethol ac ar lefel Aelodau yn faes allweddol i'w ddatblygu'n barhaus. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan AGGCC.

38 Ymhlith y cryfderau allweddol a nodwyd yn y gwasanaethau i oedolion mae'r ffocws ar ddarparu gwybodaeth gyhoeddus, tystiolaeth o gynnydd cychwynnol wrth foderneiddio a gwella gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ynghyd ag ailstrwythuro a datblygu rhai newydd drwy weithio mewn partneriaeth a chynnydd wrth weithredu systemau a phrosesau a fydd yn cynorthwyo'r awdurdod i fesur canlyniadau ac ansawdd y gwasanaethau. Ymhlith y meysydd allweddol i'w gwella/datblygu mae sicrhau bod y mynediad at wasanaethau i oedolion yn ymatebol, yn amserol ac o ansawdd ddigonol i bob defnyddiwr a gofalwr, datblygu strategaethau comisiynu ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau dysgu ac anghenion iechyd meddwl a gwella capasiti ac ansawdd y gwaith o fonitro cytundebau.

39 Ymhlith y cryfderau a nodwyd mewn gwasanaethau i blant mae gwelliannau mewn perfformiad mewn meysydd allweddol o ran defnyddio, asesu a rheoli gofal, y fframwaith sicrhau ansawdd a'r amrywiaeth o wasanaethau y mae rhai ohonynt yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y gwaith o reoli'r strategaeth lleoli ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd eisoes yn effeithiol. Mae meysydd allweddol i'w gwella/datblygu yn parhau i ddatblygu'r ymateb cychwynnol i atgyfeiriadau plant ac ansawdd gwasanaethau asesu a rheoli gofal gan sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn cyfrannu'n effeithiol at hyn.

40 Yn yr Adroddiad ar yr adolygiad o brosesau amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010, roedd AGGCC o'r farn bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arwain mewn ffordd gadarn a chadarnhaol fel cadeirydd newydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion. Yn ddiweddar, roedd y Cyngor wedi sefydlu 'Uned Ddiogelu' ar y cyd, gan gynnwys gwasanaethau amddiffyn plant ac oedolion. Roedd trefniadau dros dro ar waith ac roedd penodiadau newydd yn cael eu gwneud I'r uned newydd hon ar adeg yr arolygiad. Daeth yr arolygiad i'r casgliad, ers mis Rhagfyr 2008, fod y pwyslais ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed o fewn yr awdurdod wedi canolbwyntio ar ddarparu ymateb cychwynnol i atgyfeiriadau ond bod angen gwella'n sylweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o gontractio a chomisiynu cymorth. Nododd arolygwyr y trefniadau ar gyfer monitro contractau a'u telerau ac amodau o ran darparwyr o fewn sectorau preifat neu sectorau di-elw fel maes y mae angen rhoi mwy o sylw iddo a'i ddatblygu. Mae angen rhoi sylw hefyd i drefniadau, systemau a phrosesau staffio oherwydd ni allent roi sicrwydd i aelodau etholedig nac uwch reolwyr o gydymffurfiaeth nac ansawdd gwasanaeth.

41 Roedd y Cyngor wedi cynnal ei ymchwiliad ei hun i'w drefniadau rheoli achosion yn dilyn methiant penodol mewn gwasanaeth ar ddechrau 2009. Cynhaliodd AGGCC adolygiad i weld pa gynnydd a wnaed i'r ymchwiliad i'r gwaith o reoli achosion yr oedd y Cyngor wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2009. Roedd hwn yn ystyried trefniadau ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwasanaeth penodol:

- plant y mae angen eu diogelu;
- plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion a/neu anableddau cymhleth;
- oedolion iau (o dan 25 oed) sydd ag anghenion cymhleth sy'n defnyddio gwasanaethau gadael gofal neu wasanaethau i oedolion.

42 Gwnaeth AGGCC saith argymhelliad yn ei adroddiad. Canfu fod y Cyngor wedi arwain mewn ffordd gadarn wrth ymateb i'r materion a nodwyd yn yr ymchwiliad rheoli achosion a bod newid cadarnhaol ac angenrheidiol wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, roedd angen i'r awdurdod fynd i'r afael â rhai materion penodol o ran eu hymateb cychwynnol i ddiogelu plant, er mwyn i swyddogion ac aelodau allu nodi a monitro effaith a chanlyniadau camau gweithredu a gymerwyd mewn ffordd barhaus a datblygu gwell cysondeb yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

## Darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl

43 Mae cynghorau'n darparu cyfleusterau i'r anabl i helpu gyda'r gost o addasu cartrefi unigolion i'w galluogi i barhau i fyw yno'n annibynnol. Bydd y Cyngor yn talu'r grant pan fydd o'r farn bod angen gwneud newidiadau i ddiwallu anghenion yr unigolyn hwnnw, cyhyd ag y bo'r gwaith yn rhesymol ac yn ymarferol. Un o'r ffyrdd o fesur perfformiad y Cyngor mewn perthynas â darparu'r grantiau hyn yw drwy edrych ar ba mor hir y mae'n ei gymryd i Gyngor ddarparu grant. Ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010 roedd perfformiad y Cyngor yn un o'r gwaethaf ac, ar gyfartaledd, roedd yn cymryd 802 o ddiwrnodau i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl a oedd dros ddwbl cyfartaledd Cymru ar gyfer pob un o'r 22 o gynghorau, sef 349 o ddiwrnodau, ac yn sylweddol hwy na'r 189 o ddiwrnodau, sef y cyngor a berfformiodd orau.

44 Cawsom wybod fod y Cyngor wedi methu â rhoi sylw penodol i gamau gwella yn y Cynllun Corfforaethol am ei fod yn parhau i gymryd camau i wella'r gwaith o ddarparu grantiau. Roedd y Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud rhywbeth i wella ei berfformiad mewn perthynas â darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac, yn ystod 2007-08, cynhaliodd adolygiad o'r gwasanaeth a chytunodd gyda Llywodraeth y Cynulliad i leihau'r amser yr oedd yn ei gymryd i ddarparu'r grantiau hyn. Mae data ar berfformiad yn dangos gwelliant rhwng 2008-09, pan oedd yn cymryd 1,046 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl, a 2009-10, pan leihaodd nifer y diwrnodau i 802, ond mae'n un o'r cynghorau gwaethaf yng Nghymru o hyd mewn perthynas â hyn.

45 Ar 8 Medi 2010, gwnaeth swyddogion gyflwyniad i aelodau'r Pwyllgor Craffu Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn esbonio'r rhesymau dros y perfformiad cyfredol ac yn cynnig camau gwella pellach a oedd yn cynnwys cael caniatâd gan y Cabinet i wario mwy o arian eleni. Roedd y cyflwyniad i aelodau hefyd yn cynnwys cynnig i gyrraedd y targed ar gyfer y gwasanaeth, sef cyfartaledd Cymru o 349 o ddiwrnodau, erbyn 2011-12, felly er y byddai hyn yn welliant ar y perfformiad gwael presennol, byddai unigolion ar restr aros y Cyngor yn dal i aros yn hirach na llawer o unigolion eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cyflwyniad a wnaed i aelodau ar 8 Medi ac adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn tynnu sylw at risg o oedi pellach oherwydd y bydd llai o therapyddion galwedigaethol yn y dyfodol. Mae therapyddion galwedigaethol yn chwarae rôl allweddol wrth asesu anghenion unigolyn am gyfleusterau a gaiff eu darparu drwy gyfrwng grant, felly byddai unrhyw leihad yn nifer y therapyddion galwedigaethol yn creu risg o oedi mewn asesiadau ac yn y broses o ddarparu'r grant. Byddwn yn parhau i fonitro'r gwasanaeth a ddarperir a'i ganlyniadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

# A yw Cyngor Bro Morgannwg yn helpu pobl i ddatblygu?

46 Canran yr oedolion o oedran gweithio ym Mro Morgannwg heb gymwysterau yn 2008 oedd 8.6 y cant, sydd dipyn yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 14.6 y cant. Canran yr oedolion o oedran gweithio ym Mro Morgannwg heb gymwysterau lefel 4 NQF neu uwch yn 2009 oedd 36.5 y cant ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 29.6 y cant.

47 Cyrhaeddiad y dangosydd pwnc craidd yng ngham allweddol 2 (plant 7 i 11 oed) yw canran yr holl ddisgyblion blwyddyn 6 sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r safon ym Mro Morgannwg wedi codi'n gyson ac roedd yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru yn 2009.

48 Mae ffigurau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2009 yn dangos bod cyfoethogrwydd cymharol y Fro yn cael ei adlewyrchu yng nghanran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn y Fro, roedd gan 12.7 y cant o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 17.8 y cant. Ar 31 Mawrth 2010, roedd y Cyngor yn gofalu am 185 o blant ym Mro Morgannwg. Roedd 60 o'r plant hyn ar y gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2009.

## Gwasanaethau Llyfrgell

49 Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus ym Mro Morgannwg yn 2008-09 oedd tua 7,500 fesul mil o'r boblogaeth, sef un o'r cyfraddau uchaf o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o tua 5,900 o ymweliadau fesul mil o'r boblogaeth. Yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2010-11, nododd y Cyngor fod nifer y bobl sy'n defnyddio ei lyfrgelloedd wedi gostwng ers 2008 (er bod y ffigur hwn lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru o hyd) a bod y defnydd o dudalennau gwe y gwasanaeth llyfrgell wedi lleihau. Cafodd y gostyngiad yn y defnydd o dudalennau gwe y gwasanaeth llyfrgell ei ragweld gan fod Gwasanaeth Llyfrgell y Fro wedi'i ddefnyddio i dreialu cyfleuster chwilio am hanes teulu Cymru gyfan. Roedd y cynllun peilot yn llwyddiannus ac mae wedi'i gyflwyno i bob Awdurdod, ac o ganlyniad i hyn nid yw preswylwyr mewn rhannau eraill o Gymru mwyach yn defnyddio'r cyfleuster hwn drwy wefan y Fro, ond yn hytrach drwy eu Gwasanaethau Llyfrgell eu hunain. Mae hefyd wedi gwneud gwelliannau i system gyfrifiadurol ei lyfrgell, mae'n cyflwyno rhagor o wasanaethau ar-lein a bydd yn parhau i astudio tueddiadau o ran defnydd yn y dyfodol.

## Gwasanaethau Cymraeg

50 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Y cynghorau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

51 Yn 2009, gallai 18.3 y cant o boblogaeth Bro Morgannwg siarad Cymraeg, o gymharu â 25.6 y cant o boblogaeth Cymru. Yn 2009, aseswyd 8.8 y cant o ddisgyblion yn Gymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 2, sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 19.1 y cant ac aseswyd 7.8 y cant o ddisgyblion yn Gymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 (disgyblion 11 i 14 oed),

sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 15.9 y cant, er bod canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi codi ers 1999.

52 Cafodd y Cyngor ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am ei ganolfan cyswllt cwsmeriaid sydd bellach yn gallu delio'n well â nifer gynyddol o ymholiadau gan y cyhoedd yn Gymraeg. Gwnaeth y Bwrdd sylwadau hefyd ar ddatblygiadau cadarnhaol mewn perthynas â gwefan y Cyngor. Caiff Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei adolygu yn y dyfodol agos, a disgwylir iddo gytuno ar Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a'i gweithredu. Bydd y datblygiadau hyn yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ei wasanaethau Cymraeg yn fwy effeithiol yn y tymor canolig a'r hirdymor.

## Addysg a Hyfforddiant

53 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

54 Ym mis Mawrth 2010 cyhoeddodd Estyn adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

Roedd Estyn o'r farn bod y Cyngor yn darparu gwasanaeth da ar y cyfan oherwydd cyflawnwyd safonau da a gwnaed cynnydd da gan blant a phobl ifanc. Daw Estyn i'r casgliad fod gwasanaethau a chymorth, ar y cyfan, yn dda ac wedi'u targedu'n dda; a bod trefniadau arwain a rheoli'n gadarn. Barnwyd bod digon o gyfleoedd i wella oherwydd roedd ansawdd yr hunanasesiad yn dda, roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n dda i bennu a chynllunio gwelliannau a gwnaed cynnydd da i fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol. Yn gyffredinol ystyriwyd bod y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn werth da am arian. Roedd y gyfradd isel o leoedd gwag a rhai o’r lefelau uchaf o berfformiad gan ysgolion a disgyblion yng Nghymru yn cael eu cyflawni drwy un o’r canolfannau adnoddau isaf. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynghylch cyllid, hawliau ac atebolrwydd yn rhwystro rhai gwasanaethau a ddarperir yn ganolog rhag gallu dangos gwerth da am arian.

*(Ffynhonnell: Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Estyn, Mawrth 2010 (h) Hawlfraint y Goron 2010)*

55 Gwnaeth Estyn bum argymhelliad ar gyfer gwella. Mae’r Cyngor wedi llunio cynllun gweithredu yn esbonio sut y bydd yn ymateb i'r argymhellion hyn. Mae tîm rhanbarthol Estyn yn cadw llygad ar ei gynnydd.

56 Mae Estyn wedi argymell y dylai'r Cyngor:

- wella cadernid y broses o bennu heriau a thargedau, yn arbennig yn ystod yr ail gam;
- cynllunio anghenion dysgu ychwanegol, darpariaeth cynhwysiant ac adnoddau i ategu hyn yn strategol drwy ddefnyddio'r wybodaeth am y canlyniadau i ddysgwyr yn dda mewn ffordd gyson;

- gwella safonau a chyfleoedd cwricwlwm i bob disgybl sy'n agored i niwed ac yn arbennig disgyblion mewn unedau atgyfeirio disgyblion;
- llunio strategaeth a rennir ar gyfer Ysgolion yr 21ain ganrif a chytuno arni gyda phob rhanddeiliad; ac
- egluro trefniadau ariannu a phriod rolau a chyfrifoldebau ysgolion a gwasanaethau unigol er mwyn darparu sicrwydd gwell o ran gwerth am arian.

*(Ffynhonnell: Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Estyn, Mawrth 2010 (h) Hawlfraint y Goron 2010)*

57 Mae'r Cyngor wedi pennu nifer o gamau y mae'n bwriadu eu cymryd yn 2010 sy'n gysylltiedig â gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc. Dywedodd y byddai'n gorffen y gwaith datblygu yn Ysgol y Bont-faen ac agorwyd y datblygiad newydd i ddisgyblion ym mis Medi 2010. Mae'n bwriadu cyflwyno cynigion terfynol i ailddatblygu ysgolion Sant Cyres a Llanilltud Fawr yn 2011 ac i lunio cynlluniau strategol hirdymor ar gyfer pob ysgol gymunedol fel rhan o'r fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yn 2012.

58 Un o amcanion gwella'r Cyngor yw cefnogi plant a phobl ifanc i fwynhau bywyd iach heb unrhyw gamdriniaeth, erledigaeth na chamfanteisio. Erbyn diwedd 2010 mae'r Cyngor wedi addo cynyddu gwasanaethau cwnsela a chymorth i blant a phobl ifanc yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Bwriad y Cyngor yw defnyddio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r trefniadau i'w ddarparu i gyflawni'r nod hwn a byddwn yn adolygu'r canlyniad a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ein hadroddiad nesaf.

59 Un o amcanion eraill y Cyngor yw gwella canlyniadau i ddysgwyr y tybir eu bod yn agored i niwed oherwydd ystod o ffactorau sy'n effeithio ar eu lles cyffredinol. Dywed y Cyngor y bydd yn parhau i ddatblygu gweithdrefnau diogelu a'u rhoi ar waith yn 2010 i sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwed. Fodd bynnag, yn ei Gynllun Corfforaethol dywedodd fod hyn yn amodol ar sicrhau bod arian allanol ar gael. Deallwn fod arian ar gael a byddwn yn adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ein hadroddiad nesaf.

# A yw Cyngor Bro Morgannwg yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

60 Mae data'n dangos mai enillion cyfartalog wythnosol Bro Morgannwg oedd yr uchaf yng Nghymru yn 2009, gyda'r bwlch rhwng enillion cyfartalog ym Mro Morgannwg a chyfartaledd Cymru yn lledu ers 1999. Mae Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn mesur lefel yr incwm gwario sydd ar gael i gartrefi. Yn 2007, lefel yr Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen ym Mro Morgannwg oedd £13,060, a oedd yn yr ail chwartel o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2007, roedd lefel yr Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen ym Mro Morgannwg yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2009, £556 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol ym Mro Morgannwg, sef yr uchaf o blith y 22 o awdurdodau lleol Cymru.

### Glendid strydoedd a phriffyrdd

61 Roedd delio â glendid strydoedd ymysg blaenoriaethau dinasyddion a ymatebodd i arolwg y Cyngor o farn y cyhoedd. Mesurir glendid priffyrdd a thir perthnasol yn ôl y canran sy'n cyrraedd safon dderbyniol pan gaiff ei harolygu. Ym Mro Morgannwg, mae canran y priffyrdd a'r tir perthnasol sydd o safon dderbyniol wedi gostwng ers 2006 ac roedd y gyfradd o 92.3 y cant yn 2009 yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2010-11 noda'r Cyngor fod y gyfradd wedi gwella, gyda 95.4 y cant o briffyrdd a thir perthnasol yn bodloni safonau derbyniol yn 2009-10, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru. At hynny, cynigiodd y Cyngor darged o 96 y cant ar gyfer 2010-11. Nid yw'n glir a yw'r gwelliant canrannol hwn wedi'i gyflawni yn sgîl camau gweithredu a gynlluniwyd gan y Cyngor, a byddwn yn monitro canlyniadau ac yn cyflwyno adroddiad y flwyddyn nesaf.

62 Yn 2008-09 roedd 74 cilomedr o ffyrdd dosbarth A yn y sir. Roedd canran y ffyrdd dosbarth A a oedd mewn cyflwr gwael yn uwch na chanran Cymru gyfan; gwelwyd sefyllfa debyg yn y flwyddyn flaenorol. Yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2010-11, mae data’r Cyngor yn nodi bod gwelliant yng nghyflwr priffyrdd a ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd rhwng 2008-09 a 2009-10 er nad yw'n glir sut mae'r gwelliant hwn wedi'i gyflawni. Mae targedau a bennwyd ar gyfer y dyfodol yn awgrymu dirywiad pellach yng nghyflwr y priffyrdd, a byddwn yn monitro canlyniad y gweithgarwch ac yn cyflwyno adroddiad y flwyddyn nesaf.

## A yw'r Cyngor yn helpu i adeiladu cymuned fwy diogel a chryfach?

63 Yn gyffredinol, ers 2003-04, mae nifer y troseddau cofnodedig ym Mro Morgannwg wedi gostwng 12.4 y cant. Yn wir, mae nifer y troseddau cofnodedig wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn, ac eithrio 2006-07. Roedd perfformiad yn ystod 2008-09 yn gadarnhaol iawn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er bod ymatebwyr i arolwg y Cyngor o farn y cyhoedd o'r farn y dylai delio â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, roedd 96 y cant o'r farn bod Bro Morgannwg yn lle diogel i fyw.

64 Cyfradd droseddu Bro Morgannwg yw 68.37 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Difrod troseddol (25 y cant) a thrais yn erbyn yr unigolyn (20 y cant) yw cyfran uchaf y troseddau hyn. O'r 13 o fathau gwahanol o droseddau a enwir, dim ond dau sydd wedi cynyddu (troseddau rhywiol a chlwyfo neu weithred arall sy'n peryglu bywydau). Troseddau fel bwrgleriaeth, dwyn eitemau o gerbydau modur a dwyn cerbydau modur sydd wedi gostwng ar y raddfa fwyaf, gyda gostyngiadau o 29 y cant, 13 y cant a 10 y cant yn y drefn honno. Mae difrod troseddol wedi gostwng saith y cant, ond gweithgareddau troseddol o'r fath sy'n cynrychioli'r

gyfran uchaf o droseddau o hyd. At hynny, mae troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau wedi gostwng pedwar y cant ond mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ffigur sylfaenol o hyd (2003-04). Mae cyfradd droseddu Bro Morgannwg 15 y cant yn is na chyfartaledd Cymru. Mae wedi gostwng yn gyson a dim ond tri chwarter y ffigur a gofnodwyd saith mlynedd yn ôl ydyw bellach.

65 Diogelwch Cymunedol yw un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Dywed y Cyngor y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i wneud Bro Morgannwg yn amgylchedd mwy diogel heb unrhyw droseddau, anrhefn nac ofn troseddau drwy gymryd camau ataliol a chadarnhaol. Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn dwyn y Cyngor a'i bartneriaid allweddol ynghyd: Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Prawf De Cymru, Canolfan y Fro ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol a Gwasanaeth Tân De Cymru. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio arian y Swyddfa Gartref a Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi prosiectau lleihau troseddau ac anrhefn lleol.

66 Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn cynnal asesiad strategol blynyddol i ddatblygu blaenoriaethau allweddol â thargedau ac argymhellion y gall y Bartneriaeth Bro Ddiogelach weithio tuag atynt fel rhan o'i chynllun partneriaeth. Mae'r asesiad wedi'i lywio gan adolygiad o ddata ar droseddau a barn dinasyddion a gasglwyd mewn arolwg. Mae gwaith a wnaed gan y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn dangos bod rhai mathau penodol o droseddau yn digwydd mewn ardaloedd penodol o'r sir. Mae'r camau sy'n cael eu cymryd yn mynd i'r afael â'r meysydd allweddol sydd o bryder i'r cyhoedd a materion sy'n bwysig yn ôl ystadegau ar droseddau. Mae cyfrifoldeb ar Bwyllgor Craffu Tai a Diogelwch Cyhoeddus y Cyngor i fonitro gwaith y bartneriaeth ac mae'n derbyn adroddiadau monitro rheolaidd yn dangos a yw ystadegau troseddau yn cyrraedd targedau lleol ac, os nad ydynt yn eu cyrraedd, y rhesymau dros hyn a'r camau sy'n cael eu cymryd i unioni'r sefyllfa.

67 Mae Strategaeth Gymunedol 2010-2020 yn nodi'r prif faterion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor a'i bartneriaid, ynghyd â'u blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth yn nodi pryd y caiff camau eu cymryd na pha sefydliadau a fydd yn sicrhau y cânt eu cyflawni. Fe'n cynghorwyd gan gynghorwyr y Cyngor fod y Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i egluro bwriadau a blaenoriaethau a byddwn yn adolygu canlyniadau'r gweithgaredd hwn yn ein hadroddiad nesaf.

68 Mae'r Cyngor yn nodi tri amcan gwella lle mae wedi cynnig camau gweithredu ar gyfer 2010 ond, ar adeg ysgrifennu'r Cynllun Corfforaethol, nid oedd yn gwybod a fyddai arian ar gael ar gyfer y camau bwriadedig. Bellach, mae'r Cyngor wedi cadarnhau y bydd yr arian sydd ei angen ar gael ac felly byddwn yn gwerthuso canlyniad y gweithgaredd hwn yn 2011. Dangosir yr amcanion a'r camau arfaethedig yn Arddangosyn 2.

69 Cynhaliodd Prif Arolygydd Gwasanaethau Prawf Ei Mawrhydi arolygiad o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Hydref 2010. Archwiliodd yr arolygwyr sampl gynrychioliadol o achosion troseddau ieuenctid o'r ardal, gan farnu pa mor aml y cyflawnwyd agweddau ar waith Diogelu'r Cyhoedd ac Amddiffyn i lefel ddigon uchel o ansawdd.

**Arddangosyn 2: Amcanion sy'n gysylltiedig â Diogelwch Cymunedol**

| Amcan Gwella | Camau arfaethedig ar gyfer 2010 |
|---|---|
| Amcan gwella 23: rhoi mwy o gymorth i droseddwyr cyson iawn a throseddwyr â blaenoriaeth gyda'r nod o annog y grwpiau hyn i beidio â throseddu. | Cydleoli asiantaethau allweddol. |
| Amcan gwella 24: cynnig gwasanaethau trin a gwasanaethau cymorth effeithiol gan dargedu pobl sy'n cael gafael ar alcohol a chyffuriau gormodol yn anghyfreithlon. | Rhoi rhaglen o addysg, hyfforddiant a gorfodaeth ar waith ar gyfer manwerthwyr. |
| Amcan gwella 26: lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac achosion o aildroseddu ymhlith pobl ifanc. | Rhoi'r Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc a'r Dull Graddedig ar waith ar gyfer troseddwyr ifanc. |

*Ffynhonnell: Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2010-2014*

**Arddangosyn 3: Arolygiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid**

Dangosodd canlyniadau'r arolwg berfformiadau cymysg

| Agwedd | Bro Morgannwg | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| **Gwarchod:** pa mor aml y cymerwyd pob cam rhesymol mewn modd digon da i sicrhau bod y risg o niwed i blentyn neu berson ifanc mor fach â phosibl. | 65% o'r amser | 64% |
| **Diogelu'r Cyhoedd:** pa mor aml roedd gwaith yn cael ei wneud mewn modd digon da i sicrhau bod y risg bod unigolyn yn niweidio eraill mor fach â phosibl. | 55% o'r amser | 60% |
| **Diogelu'r Cyhoedd:** pa mor aml roedd gwaith yn cael ei wneud mewn modd digon da i sicrhau bod unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu. | 64% o'r amser | 66% |

*Ffynhonnell: Arolygiad Achos Craidd o waith ar droseddau ieuenctid ym Mro Morgannwg Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron*

70 Mae dadansoddiad manylach o'r canfyddiadau ar gael yn yr adroddiad arolygu. Mae Arddangosyn 3 yn dangos y canlyniadau. Ar y cyfan, roedd arolygwyr o'r farn bod y canlyniad hwn yn set gymysg o ganfyddiadau. Fodd bynnag, nid oedd yr arolygwyr yn credu bod angen cynnal arolygiad arall. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i helpu Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg i wella'i arferion dros y 12 mis nesaf.

71 Canfu'r arolygiad bod perfformiad y tîm wedi ei lesteirio gan nifer o faterion a oedd yn ymwneud â staffio. Roedd y duedd o ddefnyddio staff heb gymhwyso i reoli achosion cymhleth pan oedd aelodau eraill o staff yn absennol yn achos pryder sylweddol. Er bod rheolwyr gweithredol yn gweithio'n galed i geisio sicrhau ansawdd arferion, canfu'r arolygiad dystiolaeth nad oeddent bob amser yn gwneud hynny yn effeithiol. Roedd y ffordd gadarnhaol yr oedd rheolwyr yr achosion yn myfyrio ar eu harferion ac yn ymateb i adborth yr arolygiad yn galonogol i dîm yr arolygiad. Er bod rhai gwelliannau pwysig wedi'u gwneud ers yr ailarolygiad diwethaf, ym mis Rhagfyr 2008 nododd arolygwyr fod angen gwneud rhagor o waith o hyd o ran asesu a rheoli'r risg o niwed a diogelu.

*(Ffynhonnell: Arolygiad Achos Craidd o waith ar droseddau ieuenctid ym Mro Morgannwg Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron)*

## A yw'r Cyngor yn rheoli gwastraff yn effeithiol?

72 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff i tua 50,000 o gartrefi. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau helpu dinasyddion i ailgylchu gwastraff ac mae'n casglu gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu yn ogystal â gwybodaeth am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir gan wahanol gynghorau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu targedau i bob cyngor yng Nghymru i ailgylchu mwy o wastraff ac i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae methu â chyflawni'r targedau yn debygol o arwain at gosbau ariannol.

73 Caiff boddhad y cyhoedd mewn perthynas â'r gwasanaethau gwastraff ei arolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cyngor. Roedd ffigurau'r Cyngor o'r arolwg sampl diwethaf ym mis Chwefror 2010 yn dangos bod 96 y cant o'r cyhoedd yn fodlon ar y gwasanaeth rheoli gwastraff a glanhau; roedd 96 y cant yn fodlon ar y gwasanaeth casglu sbwriel; roedd 96 y cant yn fodlon ar y trefniadau ailgylchu ymyl y ffordd a 98 y cant yn fodlon ar y safleoedd amwynder dinesig. Caiff cwynion eu monitro bob dydd ac fe'n cynghorwyd bod camau'n cael eu cymryd i ddatrys problemau unigol.

74 Mae'r Cyngor wedi bod yn perfformio yn unol â chyfartaledd Cymru fwy neu lai mewn perthynas ag ailgylchu/compostio am y pedair blynedd diwethaf. Methodd y Cyngor â chyflawni targed Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ailgylchu/compostio, sef 40 y cant erbyn 2010, o drwch blewyn. Ffigur y Cyngor oedd 38 y cant ond, yn debyg i naw cyngor arall yng Nghymru, nid oes gan y Cyngor ffordd o wahanu gwastraff glanhau traethau oddi wrth ei wastraff cyffredinol ac felly nid yw'n gallu dileu gwerth y gwastraff hwn o'i gyfrifiadau.

75 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r cyhoedd yn weithredol i geisio gwella'r gwasanaeth a'u hannog i ailgylchu/compostio. Mae staff asiantaeth hyfforddedig wedi'u cyflogi i fynd o ddrws i ddrws yn gofyn i drigolion am eu problemau a'u profiadau o ran ailgylchu/compostio. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio holiadur ar y we i gael barn y cyhoedd ar wasanaethau gwastraff. Defnyddir gwybodaeth a gesglir o'r mentrau hyn i newid y gwasanaeth lle y bo'n bosibl.

76 Caiff bagiau gwastraff du eu casglu o tua 20,000 o gartrefi (40 y cant) bob pythefnos, ac nid yw'r Cyngor yn ailgylchu nac yn compostio'r gwastraff hwn. Mae tystiolaeth gan gynghorau eraill yn dangos y gall casglu bagiau gwastraff du bob pythefnos gynyddu cyfraddau ailgylchu'n sylweddol drwy annog trigolion i ailgylchu mwy na phe bai'r gwastraff yn cael ei gasglu bob wythnos. Ym mis Hydref 2010 penderfynodd y Cabinet ymestyn casgliadau gwastraff bwyd cegin i bob cartref rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Mawrth 2011.

77 Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau ailgylchu neu gompostio 70 y cant o wastraff erbyn 2025. Mae'r rhan fwyaf o gynigion y Cyngor o ran camau gweithredu ar gyfer y gwasanaeth ar gyfer 2010-11. Yn ei Gynllun Corfforaethol dywed y Cyngor ei fod yn bwriadu codi'r cyfraddau ailgylchu gwastraff i 50 y cant a lleihau'r lefelau gwastraff gweddilliol erbyn 2013, a dylai’r newidiadau a gyflwynir ganddo gyfrannu at y gwaith o gyrraedd y targed hwn.

78 Mae'r Cyngor mewn partneriaeth (Prosiect Gwyrdd) â phedwar awdurdod lleol arall yn ne-ddwyrain Cymru (Caerdydd, Casnewydd, Sir Fynwy a Chaerffili) i gaffael cyfleuster trin gwastraff gweddilliol. Disgwylir i'r cyfleuster hwn gael ei roi ar waith erbyn 2016 a bydd yn prosesu'r gwastraff gweddilliol sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd. Caiff deunyddiau y gellir eu hailgylchu eu gwahanu oddi wrth y gwastraff, a chaiff y gwastraff sy'n weddill ei drin mewn proses sy'n lleihau'r cyfaint a'r pwysau'n sylweddol. Y nod yw lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae'r Cyngor hefyd mewn partneriaeth â phum awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru i ddarparu cyfleuster erbyn 2013 i drin gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd. Cyflwynwn adroddiad ar y canlyniadau yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

# Beth y dylai Cyngor Bro Morgannwg ei wneud?

79 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- Argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd. Nid oes gennym unrhyw reswm i wneud argymhelliad o'r fath.
- Cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl. Nid oes gennym unrhyw reswm i argymell arolygiad arbennig.
- Gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod. Nid oes gennym unrhyw reswm i wneud argymhelliad ffurfiol.
- Gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

80 Gwnaethom gynigion ar gyfer gwella yn ein hasesiad corfforaethol. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi nodi nifer o bethau y mae angen i'r Cyngor ei wneud i egluro'r rheswm dros ddewis amcanion penodol a'r ffordd y mae'n cyfleu'r rhesymeg hon i ddinasyddion. Mae'r cynigion a wnaed gennym yn flaenorol ynglŷn â'r angen i ddangos canlyniadau hefyd yn berthnasol i nifer o feysydd a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae angen i Gyngor Bro Morgannwg ystyried y cynigion canlynol i'w helpu i ddangos gwelliant.

**Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu o ystyried bod llai o adnoddau ar gael;
- pennu mesurau canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgarwch ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau;
- pennu trefniadau corfforaethol ar gyfer ariannu, adnewyddu a datblygu maes TGCh;
- sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn cynnwys amcangyfrifon realistig o adnoddau ariannol, adnoddau dynol ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig.

**Cynigion newydd**

- Egluro'r rheswm dros ddewis camau sy'n gysylltiedig â darparu amcanion gwella.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[2]

2 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Fro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg

Ceir 47 o Gynghorwyr ym Mro Morgannwg sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol: 25 o Blaid Geidwadol Cymru, 12 o Blaid Lafur Cymru, chwech o Blaid Cymru a phedwar o'r Blaid Annibynnol.

Mae gan y Cyngor Gabinet o 10 cynghorydd sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion strategol a gweithredol.

**Cabinet**

| | |
|---|---|
| • Arweinydd, y Cynghorydd Gordon Kemp | Cyllid, TGCh ac Eiddo |
| • Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Hunter Jarvie | Diogelwch Cyfreithiol a Diogelwch y Cyhoedd |
| • Y Cynghorydd Geoff Cox | Gwasanaethau Gweladwy ac Adeiladu |
| • Y Cynghorydd Janice Charles | Adnoddau Dynol a Chydraddoldebau |
| • Y Cynghorydd Anthony Hampton | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| • Y Cynghorydd Jeff James | Cynllunio a Chludiant |
| • Y Cynghorydd Anthony Ernest | Twristiaeth a Hamdden |
| • Y Cynghorydd Paul Church | Tai a Diogelwch Cymunedol |
| • Y Cynghorydd Rhodri Traherne | Datblygu Economaidd ac Adfywio |
| • Y Cynghorydd Dorothy Turner | Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal |

**Tîm Rheoli Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| • Prif Weithredwr | John Maitland Evans |
| • Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu | Bryan Jeffreys |
| • Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Phil Evans |
| • Cyfarwyddwr Adfywio Amgylcheddol ac Economaidd | Rob Quick |
| • Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Diogelwch y Cyhoedd a Thai | Peter H. Evans |
| • Cyfarwyddwr Cyllid, TGCh ac Eiddo | Sian Davies |

**Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| • Bro Morgannwg | Jane Hutt |
| • De Caerdydd a Phenarth | Lorraine Barrett |

**Aelodau'r Cynulliad Rhanbarthol**

- Andrew R T Davies
- Christopher Franks
- David Melding
- Leanne Wood

**Aelodau Seneddol**

| | |
|---|---|
| • Bro Morgannwg | Alun Cairns |
| • De Caerdydd a Phenarth | Alun Michael |

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor drwy ffonio 01446 700111.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010.

Mae trefniadau arwain a rheoli cadarn yn cyfrannu at welliannau mewn meysydd allweddol ond nid yw'r weledigaeth strategol yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu'r cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi gwella canlyniadau mewn meysydd allweddol ac yn rheoli ei raglen drawsnewid UnFro yn effeithiol, ond mae'n wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol:

- mae'r Cyngor wedi pennu nodau ar gyfer newid, gan roi cwsmeriaid wrth wraidd ei gynlluniau, ac mae'n defnyddio technolegau arloesol newydd fel rhan o raglen newid 10 mlynedd;
- mae'r Cyngor yn rhoi newidiadau ar waith a gall ddangos canlyniadau gwell mewn rhai meysydd allweddol o weithgarwch; ac
- mae'r Cyngor yn wynebu heriau o ran sicrhau bod ei gynlluniau cyflenwi yn adlewyrchu gostyngiadau mewn adnoddau ac yn cefnogi'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran ei ddefnydd o TGCh mewn ffordd ddigonol.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae prosesau arwain, llywodraethu a rheoli busnes cadarn yn llywio'r newidiadau angenrheidiol ond nid yw gweledigaeth y Cyngor yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma:

- mae trefniadau arwain cadarn a threfniadau rheoli ariannol sydd wedi hen ymsefydlu yn cefnogi'r broses o ddarparu gwelliant;
- mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol cadarn wedi cyfrannu at lwyddiant o ran cyflawni gwelliant ond nid yw'r mesurau perfformiad cyfredol yn adlewyrchu canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
- mae trefniadau rheoli pobl yn ategu'r broses o wneud newidiadau ar y cyfan, ond nid yw'r Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithlu hyd yma i'w alluogi i sicrhau bod gofynion staff yn cyfateb i anghenion yn y dyfodol;
- mae cynlluniau strategol eang ar waith ond nid yw'r Cyngor wedi adlewyrchu cynlluniau ariannol tymor canolig mewn cynlluniau gwasanaeth hyd yma i ddiffinio sut y bydd yn cyflawni gwelliant o ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau y mae bellach yn eu hwynebu; ac
- mae cyfraniad gwaith partneriaeth a'r defnydd o asedau tir ac adeiladau yn y broses o gyflawni amcanion yn aneglur.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Atodiad 4

## Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Ein Cyf JG/AAR2010

Y Cynghorydd G Kemp
Arweinydd
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Holton Road
Y Barri
CF64 4RU
30 Tachwedd 2010

Annwyl Gynghorydd Kemp

**Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Cyngor Bro Morgannwg**

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailystyried y ffordd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r archwiliad ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Bro Morgannwg â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiad ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos.**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 gwnaethom gyflwyno barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ein hadroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- dylai'r Awdurdod gwblhau adolygiad o gofnodion hawliadau yswiriant manwl o flynyddoedd cynt a chyfrifo swm 'yr aed iddo ond nas derbyniwyd' (IBNR) i'w alluogi i ragweld y gronfa yswiriant wrth gefn ar gyfer hawliadau yswiriant anhysbys gyda mwy o sicrwydd na'r hyn a geir ar hyn o bryd;
- mae'r gwaith o fabwysiadu IFRIC 12, trefniadau consesiwn gwasanaethau, trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y Fenter Cyllid Preifat a chontractau tebyg wedi dangos anghysondeb yn y ffordd y caiff ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir eu trin ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae rhai awdurdodau yn rhoi cyfrif am yr ysgolion hyn fel rhan o asedau'r Cyngor ond nid yw eraill yn gwneud hynny. Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor dros y flwyddyn nesaf i sicrhau y caiff y trefniadau cyfrifyddu ar gyfer asedau o'r fath eu hadolygu;
- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel wedi'u hategu gan bapurau gwaith cynhwysfawr. Gellid gwella'r rhain ymhellach drwy ychwanegu ffeiliau electronig o bapurau ac amserlenni gwaith lle y bo'n bosibl, a dylid croesgyfeirio pob amserlen at y wybodaeth y gofynnwn amdani yn ein Llythyr Trefniadau i sicrhau eu bod yn gyflawn; a
- pharatowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnwn eich sylw at y materion canlynol:

- mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig wedi'u datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011 yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-2010.

Nid ydym wedi gallu cwblhau'r archwiliad gan fod angen ymateb i gwestiynau a godwyd gan etholwyr. Mae dyletswydd arnaf i gadarnhau bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n bosibl i mi wneud hynny nawr, ond rwy'n parhau i ystyried nifer o gwestiynau a godwyd gan etholwyr, ac er nad ydynt yn bwysig i'r cyfrifon mae angen i mi ymdrin â hwy. O ganlyniad, nid wyf mewn sefyllfa i roi'r cadarnhad hynny.

Roedd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Yn gywir

JOHN GOLDING
Archwilydd Penodedig

cc John Maitland-Evans, Prif Weithredwr
Sian Davies, Cyfarwyddwr Cyllid (Swyddog a151)

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Bro Morgannwg

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-2014 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

**Blaenoriaeth gorfforaethol arweinyddiaeth gymunedol** 'Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo trefniadau llywodraethu da a sicrhau bod dull cydlynol ar waith i gyflawni'r weledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol y Fro'.

**Amcanion Gwella:**

- Mynd i'r afael â'r materion hynny sydd bwysicaf i bobl leol, gan ganolbwyntio ar gwsmeriaid wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.
- Darparu arweinyddiaeth wrth gynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r gymuned leol ac ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion a rhanddeiliaid.
- Hyrwyddo cydweithio â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau yn y Fro drwy weithio mewn partneriaeth, gan wella ansawdd bywyd ei dinasyddion yn sgîl hynny.

**Blaenoriaeth gorfforaethol plant a phobl ifanc**: 'Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc y Fro yn cael digon o wybodaeth a chymorth i ddefnyddio ystod eang o wasanaethau o safon i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn y gymuned leol a thu hwnt.'

**Amcanion gwella**

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau teg mewn bywyd.
- Darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu.
- Cefnogi plant a phobl ifanc i fwynhau bywyd iach heb unrhyw gamdriniaeth, erledigaeth na chamfanteisio.
- Gwella mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
- Sicrhau y gwrandewir ar bob plentyn a pherson ifanc, y cânt eu trin â pharch a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi ei les corfforol ac emosiynol.
- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais o ganlyniad i dlodi.
- Gwella canlyniadau i ddysgwyr y tybir eu bod yn agored i niwed oherwydd ystod o ffactorau sy'n effeithio ar eu lles cyffredinol.
- Ymgysylltu â rhieni a chydnabod pwysigrwydd eu rôl yn addysg eu plant ac fel dysgwyr eu hunain.
- Llunio cynlluniau i ddatblygu'r fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a luniwyd i ddarparu cwricwlwm arloesol gydag amgylchedd dysgu cadarnhaol.

- Defnyddio data ar ddisgyblion ac ysgolion a data cyd-destunol i dargedu ymyriadau a mentrau i wella cyrhaeddiad disgyblion.
- Hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion, colegau, darparu dysgu gydol oes a chyflogwyr i roi rhagor o gyfleoedd a llwybrau dysgu i ddysgwyr ôl-16.

**Blaenoriaeth gorfforaethol iechyd, gofal cymdeithasol a lles**: 'Gweithio gyda phartneriaid i ddiwallu anghenion amrywiol ein trigolion mewn ffyrdd a fydd yn diogelu ac yn rhoi cymorth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ac sydd â'r angen mwyaf; helpu pobl i gadw'n heini ac yn iach, gwella cydlyniant cymunedol a sicrhau cyfle cyfartal i bawb.'

**Amcanion gwella**

- Gwella iechyd dinasyddion a'u hannog i fyw bywydau iach.
- Diogelu a gwarchod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Sicrhau bod mwy o ddewisiadau ar gael o ran llety i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn y gymuned a llunio mesurau ataliol i ohirio'r defnydd o wasanaethau gofal preswyl.
- Asesu anghenion oedolion y mae angen gofal cymdeithasol arnynt yn gyflymach a'u helpu i ddefnyddio gwasanaethau cost-effeithiol.
- Gwella 'cyfleoedd bywyd' plant a phobl ifanc mewn angen.
- Lleihau lefelau digartrefedd drwy atal ac ymyrryd yn well a darparu cyngor a gwybodaeth well.

**Blaenoriaeth gorfforaethol diogelwch cymunedol**: 'Gweithio gyda phartneriaid i wneud Bro Morgannwg yn amgylchedd mwy diogel heb unrhyw droseddau, anrhefn nac ofn troseddau drwy gymryd camau ataliol a chadarnhaol.'

**Amcanion gwella**

- Codi ymwybyddiaeth o unigolion sy'n dioddef o drais yn y cartref a'u cefnogi.
- Rhoi mwy o gymorth i droseddwyr cyson iawn a throseddwyr â blaenoriaeth gyda'r nod o annog y grwpiau hyn i beidio â throseddu.
- Cynnig gwasanaethau trin a gwasanaethau cymorth effeithiol gan dargedu pobl sy'n cael gafael ar alcohol a chyffuriau gormodol yn anghyfreithlon.
- Meithrin hyder y cyhoedd ac annog cymunedau lleol i gymryd rhan.
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac achosion o aildroseddu ymhlith pobl ifanc.

**Blaenoriaeth gorfforaethol adfywio**: 'Gweithio gyda phartneriaid i greu cymuned gynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o ran twf economaidd, gwelliant cymdeithasol ac adfywiad a diogelwch amgylcheddol.'

**Amcanion gwella**

- Diogelu a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Fro.
- Annog twf economaidd mewn partneriaeth ag eraill er mwyn darparu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth yn y Fro.
- Gwella mynediad i'r Fro ac o fewn y Fro ac annog buddsoddiad mewn seilwaith lleol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymuned amrywiol a chynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth i wella ansawdd bywyd trigolion y Fro.

**Blaenoriaeth gorfforaethol adnoddau corfforaethol**: ‘Rheoli gweithlu, arian, gwybodaeth ac asedau'r Cyngor yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel.’

- Darparu trefniadau Rheoli Corfforaethol effeithiol a gwella'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni ein hamcanion strategol.
- Rheoli, cefnogi a datblygu ein cyflogeion i'w galluogi i ddarparu a chynnal gwasanaethau'r Cyngor yn ôl y safon uchaf bosibl.
- Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau da a chynaliadwy.
- Darparu UnFro, rhaglen weddnewid y Cyngor, a sicrhau y caiff technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ei defnyddio mor effeithiol â phosibl i ategu gwasanaethau a ddarperir.

# Atodiad 6

## Cyfeirnodau

Daw’r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o’r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella’r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol